OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 226 (Cy.28)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Wrecsam) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Chwefror 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Chwefror 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mawrth 2008* |

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru am i Orchymyn gael ei wneud o dan baragraffau 1(1) a 2(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991(**1**) mewn cysylltiad â'r Fwrdeistref Sirol honno ac mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion paragraffau 1(3) a 2(3) o'r Atodlen honno ac â'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd yn unol â gofynion adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(**2**);

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau 1(1), 2(1) a 3(3) o Atodlen 3 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991(**3**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn a enwir Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Wrecsam) i rym ar 1 Mawrth 2008.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "yr ardal barcio" ("*the parking area*") yw'r ardal a ddynodir yn ardal barcio a ganiateir ac yn ardal barcio arbennig gan erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn;

(**1**) 1991 p.40. Diwygiwyd Atodlen 3 gan Orchymyn Deddf Traffig Ffyrdd 1991 (Diwygio Atodlen 3) (Cymru a Lloegr) 1996 (O.S. 1996/500), gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (c. 19), Atodlen 7, paragraff 43 a chan Ddeddf Llywodraeth Leol etc. (Yr Alban) 1994 (p.39), Atodlen 13, paragraff 171.
(**2**) 1992 p.53.
(**3**) Trosglwyddwyd y pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**4**); ac ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Traffig Ffyrdd 1991.

**Cymhwyso**

**3.** Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i fwrdeistref sirol Wrecsam yn ei chyfanrwydd heblaw am —

(a) y darn cyfan o'r A483, gan gynnwys ei slipffyrdd ymuno a'i slipffyrdd ymadael, sy'n dod o fewn y fwrdeistref sirol;

(b) yr A5 tua'r de o'i chyffordd â'r A483 cyn belled â'r ffin sirol â Swydd Amwythig; ac

(c) yr A5 tua'r gorllewin o'i chyffordd â'r A483 i'w chyffordd â'r B5070.

**Dynodi ardal barcio a ganiateir ac ardal barcio arbennig**

**4.** Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dynodi'r ardal y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddi—

(a) yn ardal barcio a ganiateir; a

(b) yn ardal barcio arbennig.

**Addasu a chymhwyso Rhan II o Ddeddf 1991**

**5.** Mae adrannau 66, 69 i 74, 78, 79 ac 82 o Ddeddf 1991, ac Atodlen 6 iddi, yn gymwys mewn perthynas â'r ardal barcio ac yn ôl y cymhwysiad hwnnw maent yn effeithiol yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**Addasu Deddf 1984**

**6.** Caiff Deddf 1984 ei haddasu mewn perthynas â'r ardal barcio fel a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

8 Chwefror 2008

(**4**) 1984 p.27. Diwygiwyd adran 32(4)(a), ac amnewidiwyd adran 45(1), gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraffau 39 a 44. Mewnosodwyd adrannau 46(1A), 63A a 101(4A) a (5A) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991, adrannau 64(2), 44(1) a 67(4) a (6). Diwygiwyd adran 102(8) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991, adran 68(3).

ATODLEN 1 Erthygl 5

ADDASIADAU I DDARPARIAETHAU RHAN II O DDEDDF TRAFFIG FFYRDD 1991 A GYMHWYSIR MEWN PERTHYNAS Å'R ARDAL BARCIO

**1.**—(1) Caiff adran 66 ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1) hepgorir y geiriau "in a designated parking place".

(3) Hepgorir is-adran (2).

(4) Yn is-adran (3)—

(a) ym mharagraff (d) yn lle'r geiriau "the specified proportion" rhoddir "one half"; a

(b) ym mharagraff (e) yn lle'r geiriau "the London authority" rhoddir "the parking authority".

(5) Hepgorir is-adran (4).

(6) Yn is-adran (5) yn lle paragraff (b) rhoddir—

"(b) the parking authority.".

**2.**—(1) Caiff adran 69 ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adran (1) rhoddir—

"(1) Where, in the case of a stationary vehicle, a parking attendant has reason to believe that it has been allowed to remain at rest in any of the circumstances in which a penalty charge is payable, the parking attendant or another person acting under the direction of the parking attendant may fix an immobilisation device to the vehicle.".

(3) Yn lle is-adran (8) rhoddir—

"(8) In this section "relevant authority" means the parking authority.".

**3.**—(1) Caiff adran 71 ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1) yn lle'r geiriau "a London authority" rhoddir "the parking authority".

(3) Yn lle is-adran (4) rhoddir—

"(4) The grounds are—

(a) that there were no reasonable grounds for the parking attendant concerned to believe that the vehicle had been permitted to remain at rest in the parking area in circumstances in which a penalty charge was payable;

(b) that the vehicle had been permitted to remain at rest in the place where it was by a person who was in control of the vehicle without the consent of the owner;

(c) that the place where the vehicle was at rest was not in the parking area;

(d) in a case within subsection (1)(d) above, that, by virtue of an exemption given by section 70 of this Act, section 69 did not apply to the vehicle at the time in question; or

(e) that the penalty or other charge in question exceeded the amount applicable in the circumstances of the case.".

**4.**—(1) Caiff adran 73 ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adrannau (1) i (3) rhoddir—

"(1) The functions conferred on the parking authority by this section must be discharged by it through a joint committee ("the Joint Committee") which has been set up in pursuance

of arrangements entered into under section 101(5) of the Local Government Act 1972(**5**) and of which the parking authority and at least two other local authorities are constituent authorities.

(2) In subsection (1) "local authorities" means authorities which are county or county borough councils in Wales or county or district councils in England in whose areas permitted parking areas or special parking areas have been designated under Schedule 3 to this Act.

(3) The parking authority must—

(a) with the consent of the Lord Chancellor appoint persons to act as parking adjudicators for the purposes of this Part of this Act in relation to the parking area;

(b) provide or secure the provision of accommodation and administrative staff for parking adjudicators so appointed; and

(c) determine the places at which such parking adjudicators are to sit.".

(3) Yn is-adran (5) yn lle'r geiriau "the appointing authorities" rhoddir "the parking authority".

(4) Hepgorir is-adrannau (8) i (10).

(5) Yn is-adran (11) yn lle'r geiriau "The Secretary of State" rhoddir "The Welsh Ministers".

(6) Ar ôl is-adran (12) mewnosodir yr is-adran ganlynol—

"(12A) The Road Traffic (Parking Adjudicators) (England and Wales) Regulations 1999 have effect as if made by the Welsh Ministers and apply to the parking area as they apply to the areas designated by the Orders listed in the Schedule to those Regulations.".

(7) Yn is-adran (18) yn lle'r geiriau "the Secretary of State" rhoddir "the Welsh Ministers".

**5.** Yn lle adran 74 rhoddir y canlynol—

"**74.**—(1) It is the duty of the parking authority to set the levels of additional parking charges to apply in the parking area.

(2) Different levels may be set for different parts of the parking area.

(3) In assessing the levels of additional parking charges to be set by the parking authority under this section the parking authority must have regard to the guidance given by the Welsh Ministers whether such guidance is given specifically to the parking authority or to local authorities in Wales generally.

(4) Guidance given by the Welsh Ministers under subsection (3) above may be varied at any time by the Welsh Ministers.

(5) The parking authority must publish, in such manner as the Welsh Ministers determine, the levels of additional parking charges which have been set under this section.

(6) In this section "additional parking charges" means penalty charges, charges made by the parking authority for the removal, storage and disposal of vehicles and charges for the release of vehicles from immobilisation devices fixed under section 69 of this Act.".

**6.**—(1) Caiff adran 78 ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (7) mewnosodir yr is-adran ganlynol:

"(8) Any order made under subsection (2), and any regulations made under subsection (4), of this section apply with necessary modifications, including in particular the substitution for references to a London authority of references to the parking authority, in relation to the recovery of Part II debts payable in relation to the parking area.".

(**5**) 1972 p.70.